Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gynradd Gymraeg Gellionnen
# Heol Gellionnen
# Clydach
# SA6 5HE

## Dyddiad yr arolygiad: Gorffennaf 2019

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn ag Ysgol Gynradd Gymraeg Gellionnen

Lleolir Ysgol Gynradd Gymraeg Gellionnen ym mhentref Clydach, a chaiff ei chynnal gan awdurdod lleol Abertawe. Mae 278 o ddisgyblion rhwng 3 ac 11 oed ar y gofrestr, yn cynnwys 33 plentyn meithrin yn y bore ac 17 plentyn cyn-feithrin yn y prynhawn. Cymraeg yw prif gyfrwng gwaith a bywyd yr ysgol.

Tros dreigl tair blynedd, mae tua 11% o'r disgyblion yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim. Mae hyn ychydig yn is na'r ganran genedlaethol, sef 18%. Mae 30% o'r disgyblion yn siarad Cymraeg gartref. Mae'r ysgol wedi adnabod tua 18% o'i disgyblion fel rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, sydd ychydig yn is na'r ganran genedlaethol, sef 21%.

Mae'r dirprwy wedi bod yn arwain yr ysgol fel pennaeth gweithredol ers Mehefin 2018. Penodwyd pennaeth newydd i'r ysgol yn ddiweddar a bydd ef yn dechrau ei swydd ym mis Medi 2019. Arolygwyd yr ysgol ddiwethaf ym mis Mehefin 2011.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iath=cym

## Crynodeb

Mae Ysgol Gellionnen yn ysgol ofalgar, gynhwysol a chroesawgar ble mae pwyslais amlwg ar sicrhau lles a chodi safonau pob disgybl mewn awyrgylch diogel. Mae ymddygiad y rhan fwyaf o'r disgyblion a'u hymagwedd at ddysgu yn arbennig o dda. Mae bron pob un yn gwneud cynnydd da yn eu dysgu o'u man cychwyn.

Mae'r pennaeth gweithredol wedi arwain yr ysgol yn fedrus drwy amser heriol. Trwy weledigaeth glir ac ymrwymiad y staff a'r gymuned ysgol gyfan, mae hi wedi sicrhau y gorau i bob disgybl. Mae'r cydweithio agos rhwng y staff yn sicrhau bod y disgyblion yn hapus a hyderus ac yn cyflawni'n dda.

| **Maes arolygu** | **Barn** |
|---|---|
| **Safonau** | **Da** |
| **Lles ac agweddau at ddysgu** | **Da** |
| **Addysgu a phrofiadau dysgu** | **Digonol ac angen gwella** |
| **Gofal, cymorth ac arweiniad** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Da** |

## Argymhellion

A1 Sicrhau bod athrawon yn gweithredu'n ddigon effeithiol er mwyn gwneud y gwelliannau angenrheidiol yn y cyfnod sylfaen, gan gynnwys rhannu'r arfer orau

A2 Gwella ansawdd llawysgrifen a chyflwyniad gwaith y disgyblion

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

## Prif ganfyddiadau

**Safonau: Da**

Ar fynediad i'r ysgol, mae gan lawer o'r disgyblion fedrau sy'n is na'r disgwyl ar gyfer eu hoed. Mae bron pob un yn gwneud cynnydd da yn eu dysgu o'u mannau cychwyn, gan gynnwys disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn dangos balchder yn yr iaith Gymraeg ac yn ei defnyddio'n bwrpasol ac yn gywir wrth siarad gyda chyfoedion ac oedolion yn y dosbarth ac mewn sefyllfaoedd anffurfiol. Ar draws y cyfnod sylfaen, mae rhan fwyaf y disgyblion yn caffael ystod gynyddol o eirfa'n llwyddiannus mewn sefyllfaoedd amrywiol. Maent yn datblygu'n siaradwyr hyderus erbyn Blwyddyn 2 sy'n hoff o rannu eu profiadau a'u safbwyntiau. Mae bron pob disgybl yn datblygu eu medrau gwrando yn effeithiol. O oed cynnar, maent yn gwrando'n dda ac yn sgwrsio a thrafod eu gwaith yn frwdfrydig. Yng nghyfnod allweddol 2, mae llawer o ddisgyblion yn siarad yn gywir yn y Gymraeg a Saesneg ac yn cyfrannu'n ddefnyddiol i sgyrsiau gyda chyfoedion ac yn mynegi eu barn yn glir. Maent yn gwrando'n astud ar safbwyntiau ei gilydd ac yn ymateb yn gall ac yn effeithiol i drafodaethau.

Mae medrau darllen rhan fwyaf y disgyblion yn y cyfnod sylfaen yn datblygu'n dda. Mae'r disgyblion ifancaf yn adnabod llythrennau a seiniau yn llwyddiannus ac mae'r mwyafrif yn llwyddo i adeiladu geiriau'n hyderus. Erbyn diwedd y cyfnod, mae'r rhan fwyaf yn darllen yn gywir ac yn rhugl. Maent yn trafod eu llyfrau'n aeddfed. Yng nghyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf yn darllen yn ddeallus mewn cyd-destunau amrywiol yn y ddwy iaith. Mae llawer yn amrywio goslef eu llais ac yn defnyddio atalnodi yn gywir. Yn ogystal, maent yn datblygu eu huwch fedrau darllen yn effeithiol mewn amrywiaeth o gyd-destunau. Er enghraifft, mae disgyblion Blwyddyn 6 yn esbonio teimladau cymeriadau mewn stori er nad ydyw wedi ei nodi'n amlwg.

Yn y cyfnod sylfaen, mae rhan fwyaf y disgyblion yn ysgrifennu ystod gynyddol o frawddegau syml yn annibynnol, gan sillafu'r mwyafrif o eiriau cyffredin yn gywir. Erbyn Blwyddyn 2, mae llawer yn ysgrifennu i safon uchel mewn ystod briodol o gyd-destunau ar gyfer gwahanol gynulleidfaoedd. Mae llawer yn atalnodi'n briodol, yn amrywio brawddegau ac yn dechrau treiglo'n gywir, er enghraifft wrth ysgrifennu stori am uncorn ofnus. Fodd bynnag, nid yw disgyblion fel rheol yn cymhwyso'u medrau ysgrifennu i'r un safon wrth weithio'n annibynnol neu heb oruchwyliaeth oedolion.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae rhan fwyaf y disgyblion yn adeiladu ar eu medrau ysgrifennu yn fedrus yn y ddwy iaith. Maent yn addasu arddull a strwythur i wahanol destunau yn briodol, er enghraifft wrth ysgrifennu adroddiad neu greu pamffled yn cynnwys nifer o ffeithiau difyr am Tsieina. Fodd bynnag, mae ansawdd llawysgrifen a chyflwyniad gwaith mwyafrif y disgyblion ar draws yr ysgol yn anniben.

Mae gan ran fwyaf o ddisgyblion y cyfnod sylfaen ddealltwriaeth dda o gysyniadau mathemategol. Mae llawer o ddisgyblion y dosbarth Derbyn yn datblygu eu dealltwriaeth o iaith fathemategol trwy fesur hyd gwahanol anifeiliaid gan ddefnyddio unedau ansafonol. Erbyn Blwyddyn 2, mae llawer yn defnyddio eu gwybodaeth rhif er mwyn canfod hyd gwahanol gadwyni papur mewn centimetrau a metrau. Mae rhan fwyaf o ddisgyblion y cyfnod sylfaen yn creu graffiau yn effeithiol. Erbyn diwedd y cyfnod, maent yn dehongli data yn synhwyrol, er enghraifft wrth drafod hoff flas

hufen iâ y dosbarth. Fodd bynnag, nid yw disgyblion yn cymhwyso eu medrau rhifedd yn gyson nac i'r un lefel pan nad ydynt yn gweithio yn agos ag oedolion. Yng nghyfnod allweddol 2, mae rhan fwyaf y disgyblion yn gwneud cynnydd da yn eu medrau mathemategol, gan adeiladu ar eu dysgu blaenorol yn llwyddiannus. Mae rhan fwyaf o ddisgyblion Blwyddyn 4 yn darllen yr amser yn gywir ac yn gwneud defnyddio'r cloc 24 awr gan ddefnyddio'r wybodaeth i ddatrys problemau yn llwyddiannus.

Ar draws y cyfnod sylfaen, mae rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu ystod werthfawr o fedrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) yn llwyddiannus iawn a chyson. Er enghraifft, mae disgyblion yn datblygu medrau rheoli cynnar wrth lywio tegan rhaglenadwy yn fwriadus. Mae llawer yn datblygu medrau ieithyddol mewn ffyrdd buddiol trwy ddefnyddio apiau ar gyfer ymarfer creu llythrennau. Yng nghyfnod allweddol 2, mae disgyblion yn adeiladu'n briodol ar eu medrau TGCh blaenorol. Mae llawer yn datblygu medrau rhaglennu cynnar yn dda wrth gynllunio gêm gyfrifiadurol. Ar draws yr ysgol, mae defnydd y rhan fwyaf o TGCh i ddatblygu medrau creadigol yn gryfder amlwg wrth i ddisgyblion o'r meithrin i Flwyddyn 6 gynhyrchu fideos ac animeiddiadau i gefnogi a chyfoethogi gwaith y dosbarth. Enghraifft nodedig o hyn yw gwaith animeiddio disgyblion Blwyddyn 2 o stori Jona a'r morfil.

Mae gallu disgyblion ifancaf y cyfnod sylfaen a disgyblion cyfnod allweddol 2 i gymhwyso eu medrau ar draws y cwricwlwm yn datblygu'n dda. Fodd bynnag, nid yw gallu disgyblion hynaf y cyfnod sylfaen i ddefnyddio eu medrau yn effeithiol yn yr ardaloedd y tu hwnt i'r dosbarth wedi ei ddatblygu'n ddigonol.

**Lles ac agweddau at ddysgu: Da**

Mae ymddygiad rhan fwyaf y disgyblion yn arbennig o dda. Maent yn rhyngweithio yn aeddfed â'i gilydd yn y dosbarthiadau, yn ystod amser egwyl ac o gwmpas yr ysgol. Mae'r disgyblion yn groesawgar ac yn gyfeillgar iawn tuag at oedolion ac ymwelwyr, gan ddangos balchder wrth siarad yn hyderus am eu hysgol. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn ofalgar o'i gilydd ac mae'r 'Bydis Buarth' yn gofalu am eraill yn dda yn ystod amseroedd egwyl a chinio. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn mwynhau bywyd a gwaith yr ysgol ac yn teimlo'n ddiogel o fewn yr ethos gofalgar, cynhwysol a chynhaliol sy'n bodoli yno. Maent yn hapus yn yr ysgol ac yn hyderus y bydd staff yn datrys unrhyw anghydfod drwy strategaethau adferol effeithiol.

Mae gan ran fwyaf y disgyblion agweddau cadarnhaol at ddysgu. Maent yn canolbwyntio'n dda ac yn dyfalbarhau am gyfnodau estynedig. Maent yn barod iawn i drafod eu gwaith, eu llwyddiannau a'r camau nesaf yn eu dysgu gydag oedolion. Maent yn cydweithio'n effeithiol gyda'i gilydd, naill ai mewn grwpiau, mewn parau neu drwy gynnig cymorth i'w gilydd pan fo angen. Ar draws yr ysgol, mae gan ran fwyaf y disgyblion ddealltwriaeth gadarn o'r hyn sydd angen iddynt ei wneud er mwyn gwella eu gwaith.

Mae gan ran fwyaf y disgyblion ymwybyddiaeth dda iawn o sut i gadw'n ddiogel ar y we. Maent yn trafod pwysigrwydd peidio â rhannu cyfrineiriau, peryglon datgelu gwybodaeth bersonol a phwysigrwydd allgofnodi bob tro ar ôl gorffen ar y cyfrifiaduron. Mae rhan fwyaf yn ymwybodol o bwysigrwydd gwneud dewisiadau iach. Maent yn ymwybodol o bwysigrwydd bwyta'r ffrwythau cywir ac yfed dŵr. Maent yn ymwybodol, er enghraifft, o'r lefel niweidiol o siwgr sydd mewn reisins ac

oherwydd hyn mae'r cyngor ysgol wedi penderfynu gwerthu ffrwythau amgen fel melon a phinafal yn y siop ffrwythau. Maent yn deall pwysigrwydd ymarfer corff ac yn ymfalchïo yn yr amrywiaeth o gyfleoedd sydd ganddynt i gadw'n heini. Maent yn siarad yn frwdfrydig am weithgareddau corfforol rheolaidd sy'n hybu ffitrwydd corfforol rhan fwyaf y disgyblion yn llwyddiannus, er enghraifft drwy sesiynau rygbi, gwersi nofio a gwersi addysg gorfforol yn ogystal â'r clwb chwaraeon sydd ar gael. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn ymfalchïo yn y cyfleoedd sydd ganddynt i chwarae rhan yn eu cymuned, er enghraifft drwy ddiddanu'r henoed a grwpiau cymunedol mewn neuadd leol a thrwy holi masnachwyr am eu defnydd o'r Gymraeg.

Mae aelodau'r cyngor ysgol a'r eco gyngor yn frwdfrydig ac mae eu syniadau yn cael lle amlwg ym mywyd yr ysgol. Maent yn trefnu gweithgareddau codi arian ar gyfer nifer o elusennau. Caiff hyn effaith gadarnhaol ar ymwybyddiaeth rhan fwyaf y disgyblion am anghenion eraill o fewn eu cymuned a'r byd ehangach. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn lleisio eu syniadau am eu haddysg a'u dysgu eu hunain yn addas, er enghraifft drwy gynnig syniadau ar ddechrau pob thema. Yng nghyfnod allweddol 2, mae'r disgyblion wedi dechrau cynllunio heriau pwrpasol ar gyfer yr wythnos ganlynol. O ganlyniad, mae ganddynt fwy o berchnogaeth am eu dysgu eu hunain. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu'n dda fel dinasyddion moesol a gwybodus trwy eu hymwybyddiaeth gynyddol o werthoedd sy'n cael eu hyrwyddo gan yr ysgol. Er enghraifft, maent yn trafod hawliau plant yn wybodus gan ddangos goddefgarwch at wahaniaethau sydd rhyngddynt.

**Addysgu a phrofiadau dysgu: Digonol ac angen gwella**

Mae holl staff yr ysgol yn cynnal ei gilydd yn dda ac yn cydweithio'n effeithiol â'i gilydd. Enghraifft o hyn yw'r cyd-drefnu a chynllunio y mae staff cyfnod allweddol 2 yn ei wneud er mwyn sicrhau dilyniant a pharhad ym mhrofiadau'r disgyblion. Mae gan bron pob athro ddisgwyliadau uchel o safonau disgyblion a gyda'r cynorthwywyr yn adnabod anghenion eu disgyblion yn dda. Mae perthynas waith effeithiol rhyngddynt sy'n creu awyrgylch tawel a pharchus ar gyfer dysgu. O ganlyniad, mae gan ran fwyaf o'r disgyblion agwedd frwdfrydig tuag at eu dysgu. Mae staff yr ysgol yn defnyddio strategaethau hybu ymddygiad da yn gyson ac yn sensitif ar draws yr ysgol, ac o ganlyniad, mae rhan fwyaf o'r disgyblion yn ymddwyn yn arbennig o dda. Mae rhan fwyaf o'r athrawon yn defnyddio arddulliau addysgu effeithiol sy'n ennyn diddordeb bron pob disgybl. Maent yn sicrhau bod pob disgybl yn deall yr amcanion dysgu yn glir ac yn eu rhannu'n rheolaidd i sicrhau pwrpas i'r dysgu. Ar y cyfan, mae'r athrawon yn darparu gwersi a gweithgareddau cyffrous i sicrhau bod pob disgybl yn cael cyfle addas i weithio mewn parau, grwpiau ac yn annibynnol. Mae rhan fwyaf o'r staff yn manteisio ar gyfleoedd rheolaidd i herio disgyblion wrth holi'n fedrus a'u hannog i feddwl ac i drafod yn effeithiol gyda'i cyfoedion. O ganlyniad, mae rhan fwyaf y disgyblion yn ymroi i'w dysgu ac yn gwneud cynnydd da yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol.

Mae rhan fwyaf o'r staff yn cynnig adborth llafar gwerthfawr i'r disgyblion yn ystod gweithgareddau er mwyn eu cynnal a'u hymestyn. Maent yn annog ac yn cefnogi'n dda. Mae rhan fwyaf o'r athrawon yn darparu adborth ysgrifenedig syml ond effeithiol. Mae'n rhoi arweiniad defnyddiol i ddisgyblion am beth sy'n dda yn eu gwaith a beth sydd angen ei wella. O ganlyniad, mae disgyblion o bob oed yn siarad yn wybodus am beth sydd yn dda yn eu gwaith a'r cynnydd y maent wedi ei wneud.

Cryfder arbennig ar draws yr ysgol yw'r cyfleoedd cyson i ddatblygu medrau creadigol y disgyblion, yn arbennig drwy greu animeiddiadau a ffilmiau fideo gan ddefnyddio sgrin werdd. Cynllunnir yn ofalus ar gyfer hyn gan sicrhau dilyniant a pharhad ym mhrofiadau'r disgyblion drwy'r ysgol. Mae plant y meithrin yn dechrau cael profiadau ysgogol drwy greu fideo i ddiolch i Sion Corn am yr anrhegion, a Blwyddyn 2 yn creu fideo o sut i wneud hufen iâ gan ddatblygu medrau cyfathrebu clir ar lafar. Yng nghyfnod allweddol 2, datblygir y medrau hyn ymhellach ym Mlwyddyn 3 drwy roi cyfleoedd i greu fideos diddorol am yr ardal leol, gyda Blwyddyn 6 yn cynllunio, sgriptio a chyflwyno ffilm er mwyn annog disgyblion i beidio â thaflu plastig oherwydd effaith hyn ar y môr.

Mae egwyddorion y cyfnod sylfaen wedi eu sefydlu'n llwyddiannus mewn llawer o'r dosbarthiadau, yn enwedig yn y dosbarthiadau meithrin a derbyn. Yn gyffredinol, mae llawer o athrawon y cyfnod sylfaen yn dangos ymwybyddiaeth dda o egwyddorion y cyfnod hwn ac maent yn ysgogi disgyblion i ddarganfod a dysgu'n annibynnol o'r cychwyn. Maent, ar y cyfan, yn cynllunio cydbwysedd o weithgareddau o dan arweiniad staff ynghyd â chyfleoedd diddorol i ddisgyblion weithio'n annibynnol yn yr ardaloedd dysgu. Fodd bynnag, nid yw hyn yn gyson ar draws y cyfnod ac nid yw'r ardaloedd dysgu na'r ddarpariaeth tu allan bob tro wedi eu sefydlu'n ddigon cadarn. Yn y lleiafrif o ddosbarthiadau lle nad yw'r arfer ar ei gorau, nid yw'r gweithgareddau yn yr ardaloedd hyn yn ddigon pwrpasol na heriol. O ganlyniad, nid yw medrau llythrennedd a rhifedd disgyblion yn cael eu cymhwyso'n ddigon da ar draws y meysydd dysgu er mwyn bodloni gofynion unigolion.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae'r ysgol yn darparu gweithgareddau dysgu diddorol, sy'n ennill diddordeb y rhan fwyaf o ddisgyblion yn effeithiol ac yn bodloni gofynion y cwricwlwm cenedlaethol yn llwyddiannus. Mae cyd-gynllunio bwriadus yn sicrhau bod ehangder y cwricwlwm a'r ystod o fedrau llythrennedd, rhifedd a TGCh yn cael eu cyflwyno'n ddiddorol. Mae disgyblion yn cael digon o gyfleoedd i ddatblygu eu medrau meddwl trwy ymchwiliadau gwyddonol, er enghraifft pam mae pengwiniaid yn 'cwtsho', neu greu gêm gyfrifiadurol. Cynigir gweithgareddau anturus yn effeithiol er mwyn ehangu profiadau dysgu'r disgyblion. Enghraifft dda o hyn yw'r profiadau 'bola syrffio' yn y ganolfan antur breswyl.

Mae'r athrawon yn darparu gweithgareddau a phrofiadau cyfoes sy'n adlewyrchu natur a chyd-destun yr ysgol a'i chymuned yn llwyddiannus iawn. Darperir ystod o ymweliadau i fannau diddorol o fewn yr ardal a thu hwnt, er enghraifft i'r amgueddfa yn Abertawe wrth astudio'r Rhyfel Byd Cyntaf. Mae'r gweithgareddau hyn yn datblygu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth disgyblion o'u cymuned a diwylliant Cymru yn dda, ynghyd â balchder y disgyblion yn eu bro.

### Gofal, cymorth ac arweiniad: Da

Cryfder amlwg yw'r pwyslais mae pob aelod o staff yn ei roi ar ddatblygu gwerthoedd a lles pob disgybl. Mae hyn yn greiddiol i ethos ofalgar yr ysgol. O ganlyniad, mae'r disgyblion yn teimlo'n ddiogel o fewn cymuned hapus yr ysgol. Mae'r arweinwyr a'r staff wedi cyflwyno strategaethau adferol ac mae hyn yn cael effaith bositif ar ethos yr ysgol. Drwy hyn, mae disgyblion yn defnyddio'r strategaethau yn aeddfed er mwyn datrys anghydfod. Mae'r cyfleoedd hyn yn hyrwyddo egwyddorion fel tegwch, gonestrwydd a chyfiawnder yn effeithiol ac yn naturiol. Mae gan ran fwyaf y disgyblion ymwybyddiaeth dda o'u hawliau. Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae gan yr ysgol systemau effeithiol i olrhain cynnydd a lles grwpiau o ddisgyblion ac mae'r staff yn defnyddio'r wybodaeth yn llwyddiannus er mwyn clustnodi darpariaeth benodol. Mae'r athrawon a'r cynorthwywyr yn adnabod anghenion disgyblion yn gynnar gan gymryd camau priodol i fodloni eu hanghenion yn effeithiol. Ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol, maent yn darparu cynlluniau addysg unigol pwrpasol ac mae'r rhieni a'r disgyblion yn cael eu cynnwys yn gyson wrth eu llunio a'u hadolygu. Mae'r staff yn cefnogi disgyblion ag anghenion emosiynol a chymdeithasol yn fedrus ac yn darparu rhaglenni cymorth pwrpasol iawn ar eu cyfer. O ganlyniad, mae'r ysgol yn sicrhau bod rhan fwyaf y disgyblion sydd ag anghenion ychwanegol yn gwneud cynnydd da yn erbyn eu targedau personol. Mae'r ysgol yn cefnogi datblygiad personol a chymdeithasol disgyblion yn llwyddiannus. Maent yn gweithredu strategaeth magu hyder a gwydnwch sy'n cynorthwyo'r disgyblion i gael agwedd gadarnhaol at eu dysgu.

Mae'r ysgol yn datblygu llais y disgybl yn effeithiol drwy nifer o gynghorau ysgol. Mae'r rhain yn cynnig cyfleoedd amrywiol i ddisgyblion gymryd cyfrifoldebau, i wneud penderfyniadau ac i ddatblygu ystod eang o fedrau. Enghraifft dda o hyn yw'r diwrnod di-ynni llwyddiannus a drefnwyd gan yr eco gyngor er mwyn tynnu sylw'r disgyblion at bwysigrwydd cynaliadwyedd. Mae gan yr ysgol drefniadau effeithiol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach. Mae'r disgyblion yn derbyn cyfleoedd buddiol i fynychu cyrsiau preswyl amrwyiol sydd yn cynnwys canolfannau amrywiol yr Urdd a chanolfan gweithgareddau anturus yr awdurdod. Mae gan y profiadau hyn effaith bositif ar hunanhyder a medrau cymdeithasol rhan fwyaf y disgyblion.

Mae'r ysgol yn meithrin perthynas werthfawr gyda'r rhieni drwy ddarparu gwybodaeth ddefnyddiol am berfformiad a lles eu plant yn rheolaidd. Mae'r gymdeithas rhieni ac athrawon yn weithgar iawn gan gefnogi'r ysgol drwy godi arian er mwyn, er enghraifft, ddarparu adnoddau i fagu medrau corfforol a digidol y disgyblion. Mae'r ysgol yn darparu'n fwriadus ar gyfer datblygu agweddau ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion. Maent yn gwneud defnydd da o'r gymuned leol er mwyn cyfoethogi profiadau'r disgyblion. Er enghraifft, maent wedi ymweld â murlun enwog Banksy yn Taibach, wedi perfformio mewn cyngherddau yn y gymuned, wedi cystadlu mewn eisteddfodau ac yn gwahodd aelodau o'r gymuned i'r ysgol yn rheolaidd. Maent yn darparu cyfleoedd da ar gyfer magu goddefgarwch a chydraddoldeb yn effeithiol ac mae perthynas fuddiol gyda'r swyddog heddlu sy'n cefnogi'r gwaith hyn yn effeithiol. Mae'r athrawon yn sicrhau bod y gwasanaethau cyd-addoli yn gyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion fyfyrio ac ystyried anghenion eraill mewn awyrgylch ysbrydol. Cyfoethogir hyn ymhellach trwy wahodd aelodau o gapeli lleol i arwain y gwasanaethau.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth: Da**

Mae'r pennaeth gweithredol yn arddangos gwydnwch cadarn wrth arwain yr ysgol. Mae'n llwyddo i sicrhau ymddiriedaeth y rhieni, cydweithrediad y staff ac, yn bennaf, diogelu ffocws effeithiol a chryf ar sicrhau lles a safonau disgyblion. Mae'n llwyddo i wneud hyn gan fod ganddi weledigaeth glir ac ymrwymiad cadarn i sicrhau'r gorau i bob plentyn a chynnig cefnogaeth ysgogol a chynhaliol. O ganlyniad, mae'r ysgol yn gymuned hapus a diogel lle mae rhan fwyaf y disgyblion yn gwneud cynnydd cadarn.

Mae aelodau o'r uwch dîm rheoli yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau yn glir, ac mae rhan fwyaf yn gweithredu ar hyn yn effeithiol. Enghraifft benodol yw'r ffordd maent yn

cymryd cyfrifoldeb am yrru pob un o flaenoriaethau gwella'r ysgol. Mae'r cydweithio pwrpasol hwn yn darparu ymdeimlad o gyfrifoldeb a balchder yn eu gwaith. Mae hefyd yn annog pawb i gyfrannu'n llawn at greu newid sydd o fudd i'r disgyblion. O ganlyniad, er enghraifft, mae safonau ysgrifennu yn y Gymraeg yn gadarn, gyda'r mwy abl ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 yn dangos cynnydd nodedig yn eu gallu i ysgrifennu gwaith o safon uchel. Yn yr enghreifftiau prin lle nad yw arweinwyr yn gweithredu'n ddigon effeithiol, nid ydynt yn gosod cyfeiriad yn ddigon pwrpasol, er enghraifft wrth sicrhau bod egwyddorion y cyfnod sylfaen ar waith yn gyson.

Mae rhaglen bwrpasol i fonitro, gwerthuso ac adolygu gwaith yr ysgol. Mae arweinwyr yn monitro'r ddarpariaeth ac yn nodi os oes angen cryfhau neu fireinio eu harfer ar draws yr ysgol. Mae eu gwaith, ar y cyfan, yn rhoi darlun cywir iawn o gryfderau'r ysgol, a llawer o'r materion sydd angen sylw. Lle nad yw hyn yn hollol gywir, nid ydynt wedi adnabod yr angen i sicrhau cysondeb yn y ddarpariaeth yn y cyfnod sylfaen er mwyn sicrhau bod ethos y cyfnod hwnnw wedi hydreiddio trwy pob dosbarth.

O ganlyniad i'r diwylliant o hunanwerthuso a myfyrio cyson, mae arweinwyr yn nodi gweithgareddau perthnasol ar gyfer eu cynllun datblygu ac mae monitro cyson a buddiol er mwyn mesur cynnydd. Maent yn cyflwyno blaenoriaethau cenedlaethol, fel diwygio'r cwricwlwm, drwy fod yn rhagweithiol ac yn defnyddio'r cyfnod hwn i arbrofi o ran cynllunio ar ei gyfer.

Mae lefelau staffio'r ysgol yn bodloni'r angen ac mae gan yr ysgol weithdrefnau cadarn i reoli perfformiad athrawon. Mae arweinwyr yn sicrhau bod gweithgareddau dysgu a datblygu proffesiynol buddiol yn sail i'r gwelliannau o fewn yr ysgol. Gwnânt ddefnydd effeithiol o arbenigedd y staff o fewn yr ysgol, er enghraifft i gyflwyno gwelliannau yn y ddarpariaeth ar gyfer ystod o anghenion ychwanegol disgyblion, fel iechyd meddwl. Mae athrawon yn ymweld ag ysgolion eraill er mwyn dysgu o arfer dda ac i werthuso pa syniadau sydd fwyaf tebygol o fod yn llwyddiannus ar gyfer y disgyblion. Lle bo'n briodol, mae arweinwyr yn gwneud defnydd gwerthfawr o hyfforddiant o fewn y clwstwr o ysgolion lleol i hyfforddi staff mewn mentrau newydd ac i gefnogi datblygiad proffesiynol parhaus. O ganlyniad, mae'r cyfnod sylfaen wedi cyflwyno teclyn newydd ysgogol i gyflwyno medrau rheoli tegan ar draws y cyfnod yn llwyddiannus.

Mae'r corff llywodraethol yn adnabod yr ysgol yn drylwyr ac mae cyfraniad aelodau wrth gynnal a llywio'r ysgol trwy gyfnod bregus wedi bod yn allweddol. Maent yn cyd-ddarparu cyfeiriad strategol clir i waith yr ysgol, gan ddarparu her a chefnogaeth amserol i'r uwch dîm rheoli. Mae eu trylwyredd wrth fonitro cynnydd yn erbyn targedau gwella'r ysgol yn gryfder. Maent yn disgwyl i bob athro gyflwyno tystiolaeth o gynnydd, er enghraifft wrth wirio a oes digon o gynnydd mewn ysgrifennu estynedig. Maent yn rheoli cyllideb yr ysgol yn effeithlon ac yn sicrhau bod y grant datblygu disgyblion yn cael ei ddefnyddio'n effeithiol i liniaru effaith tlodi.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Mae Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Nodweddion cryf, er y gall fod angen gwella mân agweddau |
| **Digonol ac angen gwelliant** | Cryfderau'n gorbwyso gwendidau, ond agweddau pwysig y mae angen eu gwella |
| **Anfoddhaol ac angen gwelliant ar frys** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2019: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 10/09/2019